# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD – MICROSOFT TEAMS AC YSTAFELL GYNADLEDDA'R CABINET)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **25 EBRILL 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Phillips** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Thomas** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, N.Goldup-John, J.Henton, D.Keogh, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, P.Rogers a/ac R.W.Wood |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | H.Lervy, C.Millis, R.Crowhurst, C.Saunders, Ashton, S.McCluskie, S.Griffiths, T.Davies a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau i'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan ddigwyddiadau diweddar yn Ysgol Dyffryn Aman.

Cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu ar eitemau 6 a 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024 fel cofnod gwir a chywir.

## 4. CYNIGION DYSGU PROFFESIYNOL AR GAEL AR GYFER STAFF MEWN YSGOLION

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a chyfeiriodd at y nifer helaeth o gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i staff ysgolion. Holodd yr Aelodau a oes data ar gael i nodi a yw hyfforddiant wedi effeithio ar ganlyniadau addysgu a dysgu mewn ysgolion, a'r broses os nad yw ysgolion yn ymgysylltu â'r rhaglen hyfforddi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg y dylid adnabod a nodi costau'r holl hyfforddiant drwy'r Cynllun Datblygu Ysgolion; mae adnoddau'n gyfyngedig a dylid ystyried sut y gall staff gael mynediad at gyrsiau gan ystyried y gofyniad i dalu am absenoldebau staff. Mae yna wahanol ddulliau o ddarparu hyfforddiant, a gall llawer ohonynt fod yn gost niwtral. Mae amrywiaeth o swyddogion yn monitro'r Cynllun Datblygu Ysgolion i nodi a yw hyfforddiant wedi bod yn effeithiol. Darperir holiaduron yn ystod yr hyfforddiant a gwneir gwaith dilynol ar ymatebion. Cysylltir ag ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan mewn hyfforddiant i nodi rhwystrau i bresenoldeb. Cydnabuwyd y gall cyllidebau ysgolion a chostau hyfforddi effeithio ar aelodau staff sy'n ceisio cael mynediad at hyfforddiant.

Gofynnodd yr aelodau a ellid recordio hyfforddiant ymlaen llaw i gynorthwyo gyda staff sydd am dderbyn yr hyfforddiant ar adeg gyfleus.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg fod rhai cyrsiau'n cael eu recordio ymlaen llaw ond roedd hyn yn dibynnu ar natur y cwrs a'r ymyriad cwrs gofynnol. Mae'n bwysig peidio â cholli ansawdd yr hyfforddiant.

Gofynnodd yr aelodau a oedd hyfforddiant ar gael i staff ysgolion yn unig.

Cadarnhaodd swyddogion fod yr adroddiad y gofynnwyd amdano yn canolbwyntio ar staff ysgolion yn unig ond bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bartneriaid lle bo hynny'n briodol.

Cydnabu'r Aelodau fod y gofyniad dysgu ar gyfer staff ym mhob sector yn wych a gofynnwyd a oedd gofynion hyfforddiant yn effeithio ar gyllidebau ac addysgu a dysgu mewn ysgolion.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Addysg fod angen cynllunio hyfforddiant a bod arweinyddiaeth ysgolion a'r cynllun datblygu ysgol yn bwysig wrth gynllunio ar gyfer gofynion hyfforddi yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd cydberthynas wedi'i nodi rhwng nifer y staff ysgol a oedd yn bresennol mewn cyrsiau hyfforddiant ac unrhyw effeithiau cadarnhaol ar yr ysgol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg y cedwir rhywfaint o ddata, ond mae'n bwysig bod yr hyfforddiant yn cael ei roi ar waith ac mae angen sicrhau bod hyfforddiant yn cyd-fynd ag anghenion yr ysgol. Trwy reoli perfformiad, dylai staff gael mynediad at hyfforddiant sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddisgyblion. Nid oes tystiolaeth sy'n dangos a oes cydberthynas uniongyrchol.

Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar y rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a oedd ar waith a diolchodd i'r swyddogion am yr adroddiad.

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad.

## 5. DIWEDDARIAD GWEITHGOR CELTIC LEISURE

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad ond gwnaethant sylw ar deneurwydd y Cylch Gorchwyl. Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch dyddiadau'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant fod cyfarfodydd Gweithgor Celtic Leisure wedi'u cynnal ar 5 Chwefror, 22 Chwefror a 13 Mawrth; rhagwelir y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn fuan a chynhelir cyfarfodydd yn y dyfodol bob pythefnos, os bydd angen.

Gofynnodd yr aelodau a roddwyd ystyriaeth i gynhyrchu incwm a'r cydbwysedd rhwng gwariant a phosibiliadau cynhyrchu incwm. Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw groesliniad o bosibiliadau gwasanaeth wedi'u nodi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant nad oedd y gweithgor wedi canolbwyntio ar gynhyrchu

incwm ond roedd Celtic Leisure wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â chynhyrchu incwm ac arbedion cyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Maent yn hyderus y gellir cyflawni arbedion pellach yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol drwy gynhyrchu incwm. Nid yw croesgysylltiad wedi'i archwilio ar hyn o bryd; mae'r ffocws wedi bod ar sicrhau bod costau sy'n dod i mewn yn cael eu rheoli.

Dywedodd yr aelodau fod angen canolbwyntio mwy ar arbedion posib ar draws gweddill yr awdurdod a gofynnodd a fyddai'r gweithgor yn gwneud y gwaith hwn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant nad oedd hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ond y bydd yn cael ei ystyried, yn dibynnu ar ganlyniad y gweithgor. Bydd gwaith i gynllunio sut mae gwasanaethau'n cael eu gweithredu pan ddônt yn ôl yn fewnol yn cael ei wneud wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Gofynnodd yr Aelodau am esboniad ynghylch trosglwyddiad graddol posib a phryd y gellid disgwyl adroddiad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant yr ystyriwyd sut y byddai gwahanol amserlenni'n effeithio ar gostau. Roedd amseriad yr adroddiad yn dibynnu ar y gwaith parhaus o amgylch costau, ond y gobaith oedd y byddai hwn ar gael cyn gwyliau'r haf.

Dywedodd yr aelodau ei bod yn bwysig edrych ar sut mae gwasanaethau'n rhyng-gysylltu a'r potensial ar gyfer arbedion mewn meysydd eraill.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant bod cyfleoedd ar gael ond efallai na fydd y rhain yn cael eu gwireddu yn y tymor byr. Mae gan Celtic Leisure gynllun busnes y mae'n ei ddilyn.

Dywedodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld y cynllun busnes wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth y byddai'n gwirio pryd roedd y cynllun yn mynd i Fwrdd Celtic Leisure.

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad.

6. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar

Cyflwynodd Pennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar fel yr amlinellir ym mhecyn adroddiad Agenda'r Cabinet.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 17 yr adroddiad a gofynnwyd am ragor o fanylion ar sut y cafodd dysgwyr bregus eu cynnwys yn y broses ymgynghori.

Cadarnhaodd Pennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad ei bod yn bwysig bod barn pobl ifanc fregus yn cael eu cofnodi. Er mwyn cyflawni hyn, cyflogwyd Ymgynghorydd a chynhaliwyd ymgynghoriad helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid ac unigolion. Defnyddiwyd y safbwyntiau a gasglwyd i lunio'r cynllun a sefydlu blaenoriaethau; bydd safbwyntiau'n parhau i gael eu hystyried wrth i grwpiau cyflwyno gael eu datblygu. Yn unol â'r Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu newydd, sicrhawyd yr ymgynghorwyd â phob grŵp o bobl ifanc, yn enwedig y rheini heb gynrychiolaeth ddigonol. Nodwyd ei bod yn bwysig rhoi sgiliau i blant er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 18 yr adroddiad a'r effaith gadarnhaol ar gymunedau'r cymoedd a nodwyd. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am sut ymgynghorwyd â rhieni a phobl ifanc.

Cadarnhaodd Pennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad yr ymgynghorwyd yn helaeth â grwpiau o bobl, ysgolion arbennig, cyngor ieuenctid, a thrwy ymgyrch ar-lein ac ysgogiadau. Gofynnwyd am farn hefyd gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd.

Mynegodd yr aelodau barch at y cyngor ieuenctid ond dywedon nhw efallai na fyddant yn cynrychioli'r holl bobl ifanc; mae angen barn gan grwpiau o bobl ifanc nad ydynt yn hanesyddol yn cymryd rhan.

Cadarnhaodd swyddogion fod ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r gwasanaeth ieuenctid, gofalwyr ifanc a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Gwnaed cysylltiadau â grwpiau LHDTQ+, Dechrau'n Deg, grwpiau

bwydo ar y fron a llawer o ymgynghoriadau â grwpiau bach yn dilyn ymgynghoriad â phartneriaid.

Dywedodd yr Aelodau fod y cynllun yn dda ond bod diffyg unrhyw bwyntiau negyddol; a oes cysylltiad clir rhwng Cynllun y Gyfarwyddiaeth a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar.

Cadarnhaodd swyddogion fod dwy elfen i'r strategaeth; blaenoriaethau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth a blaenoriaethau sy'n cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau partneriaeth ac sy'n cyd-fynd â nhw. Adroddir yn ôl i'r pwyllgor ynghylch cynnydd y strategaeth.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar i staff addysg am y gwaith mawr o lunio'r strategaeth a dywedodd fod gan y strategaeth gysylltiadau â'r adroddiad dysgu proffesiynol a drafodwyd yn gynharach.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd y pwyllgor yr argymhelliad i'w gyflwyno i Fwrdd y Cabinet.

<u>Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes</u>

Dywedodd yr Aelodau fod Cynllun y Gyfarwyddiaeth yn ddefnyddiol wrth ddarparu gwybodaeth a mewnwelediad i'r ddarpariaeth a gofynnwyd iddo gael ei ddychwelyd i'r pwyllgor fel arf defnyddiol i fonitro cynnydd, yn enwedig yn y model craffu newydd.

Cytunodd y Pennaeth Datblygu Addysg i adrodd yn ôl i'r pwyllgor am yr adroddiad hanner ffordd drwyddo fel dogfen fonitro ond dywedodd na fydd pob targed yn symud ymlaen ar yr un cyflymdra. Mae Cynllun y Gyfarwyddiaeth yn sefyll islaw'r Cynlluniau Gwasanaeth a gellir dod â detholiad o'r rhain i'r pwyllgor hefyd.

Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor ei bod yn braf gweld sôn am gynlluniau prentisiaeth yn yr adroddiad.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau'r adroddiad.

## 7. **<u>COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR</u>**

Nodwyd Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor.

## 8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Cododd yr aelodau'r digwyddiad diweddar yn Ysgol Dyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin, a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch gweithdrefnau atal mynediad yn Ysgolion Castell-nedd Port Talbot.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg fod gan bob ysgol Bolisi Atal Mynediad, sy'n gysylltiedig â'r Polisi Diogelu. Cynhelir sesiynau hyfforddi rheolaidd trwy dîm Archwilio I&D, ac mae staff o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn ymweld ag ysgolion i gynghori ar yr agenda Atal a Diogelu. Nodwyd mai cyfrifoldeb arweinwyr ysgolion a chyrff llywodraethu yw ymarfer a gweithredu gweithdrefnau atal mynediad fel y bo'n briodol. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth y dosbarthwyd gwybodaeth i staff ysgolion a rhieni er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o bolisïau atal mynediad.

Dywedodd yr Aelodau fod nifer uchel o bobl ifanc o Gastell-nedd Port Talbot yn mynd i Ysgol Dyffryn Aman ac efallai eu bod wedi cael eu heffeithio gan y digwyddiadau diweddar. Nododd yr Aelodau fod sefydliadau cymunedol wedi rhoi rhaglenni cymorth ar waith mewn cymunedau yr effeithiwyd arnynt ac wedi holi a oedd unrhyw gymorth pellach ar gael o fewn ein hawdurdod. Awgrymodd yr aelodau y dylid rhoi cefnogaeth ar waith ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid.

Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig bod unrhyw gefnogaeth a ddarparwyd yn cael ei chydlynu â Sir Gaerfyrddin, ac mai'r ysgol yw'r gymuned sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi pobl ifanc. Gwneir cyswllt â'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion i nodi a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwaith ar y cyd. Nodwyd bod y garfan o ddisgyblion o'r fwrdeistref yn cael eu nodi drwy gludiant sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod; ni fydd disgyblion sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'r sir ar gofrestrau ysgol yma.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar fod profi gweithdrefnau atal mynediad yn bwysig ac y dylid eu cynnal heb ddychryn disgyblion. Gofynnodd Aelod y Cabinet i aelodau'r pwyllgor roi sicrwydd i rieni a chymunedau bod ysgolion yn ddiogel a bod cynlluniau ar waith pe bai eu hangen.

**Cynghorydd R.Phillips**
**CADEIRYDD**